# Eich adborth, ein hymateb

**Rydym yn cymryd eich adborth o ddifrif. Dyma rai enghreifftiau o newidiadau a gyflwynwyd gennym yn dilyn adborth gan gwsmeriaid.**

| Eich adborth | Ein hymateb |
|---|---|
| Nid oedd anfon llythyron drwy bost ail ddosbarth yn diwallu eich anghenion. | Gwnaethom gyflwyno post dosbarth cyntaf i sicrhau eich bod yn derbyn ein llythyron yn llawer cyflymach. |
| Roeddech am allu newid neu ailosod eich cyfrinair wrth ddefnyddio ein cais am basbort ar-lein. | Rydych bellach yn gallu creu eich cyfrinair eich hun a'i ailosod os bydd angen. Dylai hyn eich galluogi i fewngofnodi yn llawer haws yn ogystal â gweld sut mae'ch cais yn dod yn ei flaen ar-lein. |
| Cafodd eich ffotograff ei wrthod pan oedd yn hŷn na mis oed er nad oedd eich ymddangosiad wedi newid. | Gwnaethom ddiweddaru ein polisi i ganiatáu gweithwyr achosion i ddefnyddio eu disgresiwn pan fydd ffotograffau ychydig yn hŷn na mis oed cyhyd â'u bod yn fodlon nad yw eich ymddangosiad wedi newid. |
| Gofynnwyd i chi am fanylion pellach ar ôl gwneud cais ar-lein am fod eich ymddangosiad wedi newid cymaint ers eich pasbort diwethaf ac achosodd hyn oedi i'ch cais am basbort. | Gwnaethom ddiweddaru'r wefan i ofyn i chi a ellid eich adnabod o'ch hen ffotograff ac os na allech gwnaethom ofyn i chi gael cydlofnod. Mae hyn yn osgoi oedi diangen wrth brosesu eich cais. |
| Bu adegau pan gawsoch eich cloi allan o'r broses gwneud cais ar-lein tra roeddech yn talu. | Gwnaethom newid y broses fel bod yn rhaid i chi greu cyfrinair cyn talu felly os byddech yn cael eich cloi allan gellid adalw eich cais yn hawdd. |

**Mae ffurflenni adborth ar gael gan aelod o staff**

**Chwefror 2016**

Swyddfa Basbort EM

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
CSE